

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to ask the Minister for Education and Lifelong Learning	2

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister

Effaith Ailfandio'r Dreth Gyngor The Effect of Council Tax Rebanding

<p>Q12 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on the effect of council tax rebanding on Brecon and Radnorshire? OAQ0531(LGP)</p>	<p>C12 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ailfandio'r dreth gyngor ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ0531(LGP)</p>
--	--

<p>The Finance Minister (Sue Essex): The impact of revaluation in Powys is that 52 per cent of properties have remained in the same band, 7 per cent of properties have gone down one or more bands, and 41 per cent of properties have gone up one or more bands.</p>	<p>Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yn sgîl ailfandio'r dreth gyngor ym Mhowys, mae 52 y cant o eiddo wedi aros yn yr un band, mae 7 y cant wedi symud i lawr un band neu fwy, ac mae 41 y cant wedi symud i fyny un band neu fwy.</p>
---	--

Effaith Deddf Drwyddedu 2003 ar Gymru Impact of the Licensing Act 2003 in Wales

<p>Q13 Eleanor Burnham: How does the Minister intend to assess the impact of the Licensing Act 2003 in Wales? OAQ0536(LGP)</p>	<p>C13 Eleanor Burnham: Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu asesu effaith Deddf Drwyddedu 2003 ar Gymru? OAQ0536(LGP)</p>
---	---

<p>Sue Essex: This is not a devolved issue. The UK Government is fully committed to monitoring closely the impact of the Licensing Act 2003 on both England and Wales. Cardiff County Council is one of the 10 licensing authorities that will help monitor and evaluate the new regime.</p>	<p>Sue Essex: Nid yw'r mater hwn wedi ei ddatganoli. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fonitro effaith Deddf Drwyddedu 2003 yng Nghymru a Lloegr. Mae Cyngor Sir Caerdydd yn un o'r 10 awdurdod trwyddedu a fydd yn helpu i fonitro a gwerthuso'r gyfundrefn newydd.</p>
---	---

**Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru
Public Services in Mid and West Wales**

Q14 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on public services in Mid and West Wales? OAQ0517(LGP)

C14 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0517(LGP)

Sue Essex: We have set out our vision for high-quality, responsive public services in 'Making the Connections', published in June 2005. We have supported the delivery of those services by providing £756.7 million of Assembly Government support to mid and west Wales local authorities for 2006-07.

Sue Essex: Yr ydym wedi amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau ymatebol o ansawdd da yn 'Creu'r Cysylltiadau', a gyhoeddwyd ym Mehefin 2005. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynorthwyo darpariaeth y gwasanaethau hynny drwy glustnodi £756.7 miliwn i awdurdodau lleol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ar gyfer 2006-07.

**Etholaeth Caerffili
Caerphilly Constituency**

Q15 Jeff Cuthbert: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's achievements in the field of local government in the Caerphilly constituency? OAQ0486(LGP)

C15 Jeff Cuthbert: A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad ym maes llywodraeth leol yn etholaeth Caerffili? OAQ0486(LGP)

Sue Essex: Our policy agreement with Caerphilly County Borough Council envisages significant improvements in public services by 2007. The council has already made good progress towards these targets in the first year of the agreement.

Sue Essex: Mae ein cytundeb polisi gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhagweld gwelliannau sylweddol yng ngwasanaethau cyhoeddus erbyn 2007. Mae'r cyngor eisoes wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at gyflawni'r targedau hyn yn ystod blwyddyn gyntaf y cytundeb.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Questions to ask the Minister for Education and Lifelong Learning**

**Cludiant am Ddim i Ysgolion
Free School Transport**

Q11 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on free school transport? OAQ0616(ELL)

C11 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gludiant am ddim i ysgolion? OAQ0616(ELL)

Jane Davidson: Local education authorities are responsible for providing free home-to-school transport for children who live over the statutory walking distances. Many LEAs operate more generous policies. In providing school transport, LEAs must ensure that children travel in reasonable safety and comfort.

Jane Davidson: Mae'r awdurdodau addysg lleol yn gyfrifol am ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer plant sy'n byw yn bellach o'r ysgol na'r pellteroedd cerdded statudol. Mae polisi sawl AAL yn fwy hael. Wrth ddarparu cludiant i'r ysgol, mae'n rhaid i'r AALLau sicrhau bod plant yn teithio mewn modd sy'n rhesymol gyffyrddus a diogel.

*Atebwyd cwestiynau 12, OAQ0606(ELL), ac 13, OAQ0604(ELL), yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 12, OAQ0606(ELL), and 13, OAQ0604(ELL), were answered in Plenary.*

Darpariaeth Ysgolion Arbennig yn Sir y Fflint Special School Provision in Flintshire

Q14 Carl Sargeant: Will the Minister make a statement on special school provision in Flintshire? OAQ0591(ELL)

C14 Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth ysgolion arbennig yn sir y Fflint? OAQ0591(ELL)

Jane Davidson: I am aware that Flintshire LEA has recently announced its intention to consult on proposals to restructure special school provision across the authority. I am unable to comment further as if objections are received within the statutory objection period, I will be required to determine whether the proposals may go ahead.

Jane Davidson: Yr wyf yn ymwybodol bod AALI sir y Fflint wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn ymgynghori ar y bwriad i ailstrwythuro darpariaeth ysgolion arbennig ar draws yr awdurdod. Ni allaf wneud unrhyw sylwadau pellach oherwydd os derbynnir unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod statudol ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau, bydd gofyn i mi benderfynu a fydd y cynigion yn mynd rhagddynt.

Cyrsiau Gyrfaol Vocational Courses

C15 Owen John Thomas: Pa drefniadau sydd gan y Gweinidog i gynyddu nifer yr hyfforddwyr cymwysedig er mwyn ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn cyrsiau gyrfaol? OAQ0611(ELL)

Q15 Owen John Thomas: What arrangements has the Minister made to increase the number of qualified trainers in order to increase opportunities for pupils to study vocational courses? OAQ0611(ELL)

Jane Davidson: Mae adroddiad 'Llwybrau Dysgu 14-19' yn argymhell y dylid sefydlu tasglu cymwysterau galwedigaethol a fydd, ochr yn ochr â'r hyrwyddwr sgiliau galwedigaethol, yn cynghori ar nifer yr hyfforddwyr cymwysedig sydd eu hangen i gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion astudio cyrsiau galwedigaethol.

Jane Davidson: The 'Learning Pathways 14-19' report recommends the establishment of a vocational qualifications taskforce which, alongside the vocational skills champion, will advise on the number of qualified trainers required to increase opportunities for pupils to study vocational courses.